

# Rhaglen

Haf 2026

**ROYAL WELSH COLLEGE**
OF MUSIC & DRAMA
**COLEG BRENHINOL**
CERDD A DRAMA CYMRU

**WWW.RWCMD.AC.UK**

**Croeso i dymor yr haf llawn dathlu, gydag amrywiaeth wych o gynyrchiadau newydd gan ein myfyrwyr sy'n graddio ar draws meysydd drama, cynllunio, cerddoriaeth a theatr gerddorol, yn ogystal â chanmlwyddiant yr eicon jazz Miles Davis.**

Mae ein cyfansoddwyr yn agor ein tymor o wyliau gyda Gŵyl Awyrgylch, gwledd penwythnos o gerddoriaeth a sain newydd sydd wastad yn swyno a synnu gwrandawyr. Yna bydd ein cerddorion jazz yn cymryd yr awenau gyda Gŵyl AmserJazzTime sy'n cynnwys pedwar diwrnod o berfformiadau am ddim, ynghyd ag ymddangosiadau gwadd arbennig gan un o raddedigion CBCDC ac enwebai am Wobr Mercury Joe Webb, a theyrnged Jay Phelps i albwm eiconig Miles Davis, Kind of Blue.

Dilynwch hyn trwy archwilio pedair drama newydd eu comisiynu yn NEWYDD, ein gŵyl flynyddol o ysgrifennu newydd a gynhelir yn Theatrau Sherman a Richard Burton; a byddwn yn dychwelyd i'r Sherman ar gyfer ein cynhyrchiad newydd o 'un o'r sioeau cerdd Americanaidd gorau erioed', Guys and Dolls.

Bydd gwledd hefyd i gefnogwyr dawns gyda dychweliad dawnswyr ifanc gwych VERVE, a chynhyrchiad newydd pwerus Anthony a Kel Matsena, BOY-ISH.

Yn olaf, byddwn yn eich cludo i ynys hudolus ar gyfer yr opera Alcina gan Handel, ac yn dod â grymoedd cyfunol cerddorfeydd WNO a CBCDC i chi mewn gweithiau nodedig gan Strauss a Rachmaninov.

Mae llawer mwy na hyn, o bypedwaith i ddatganiadau piano, arddangosfeydd cynllunio i gerddorfeydd siambr. P'un a ydych yn ymuno â ni am berfformiad neu ddiod yn edrych dros Barc Bute, rydym yn edrych ymlaen at eich gweld yr haf hwn!

## Cynnwys

3 Digwyddiadau am ddim
4 NEWYDD '26
6 Theatr Gerddorol
7 Opera
8 Dawns
9 Cerddoriaeth
10 Awyrgylch
15 WNO a CBCDC
16 Gŵyl AmserJazzTime
21 Puppedwaith a teuluoedd
22 Gwobrau a chystadlaethau
23 Llŷr Williams 2026-2027
24 Cymryd rhan

Ewch i **https://www.rwcmd.ac.uk/cy/plan-your-visit** i gael rhagor o wybodaeth am docynnau, sut i ddod o hyd i ni, archebion grwpiau ac ysgolion a mwy.

Mae Bar y Caffi yn cynnig amrywiaeth eang o fwyd, cacennau a diodydd, ac mae nawr ar agor cyn perfformiadau ac yn ystod yr egwylion. Cadwch lygad am ein Cyfuniad Diod a Byrbryd.

**Wyddoch chi?** Mae fersiwn sain a phrint bras o'r llyfryn hwn ar gael. Ewch i: **www.rwcmd.ac.uk/cy/access-guide**

Rydym yn rhan o gynllun cenedlaethol o'r enw Hynt sy'n rhoi'r arfer gorau oll i gwsmeriad o ran polisi tocynnau teg a hyrgyrchedd.

Diolch i nawdd hael gan Unite Students, mae gan unrhyw fyfriwr sy'n byw mewn llety Unite yng Nghaerdydd hawl i docyn am £3. Chwiliwch am y symbol Unite i weld y digwyddiadau sy'n berthnasol.

Rydym yn falch o fod yn Bartner Cydnabyddiaeth Credydau Amser Tempo, sy'n cynnal cynllun gwobrwyo a chydnabyddiaeth ar gyfer gwirfoddolwyr yn y gymuned. Gallwch ddarganfod mwy yn **www.wearetempo.org**

Maes y Castell,
Parc Cathays, Caerdydd
029 2039 1391

Archebwch Ar-lein:
rwcmd.ac.uk/cy/whats-on

Cefnogir y rhaglen perfformiadau myfyrwyr gan Cyswllt
rwcmd.ac.uk/support-us

Llun clawr:
Llinynnau CBCDC,
gan Simon Gough





## AmserJazzTime

**1 Mai–3 Jul 5.30pm**

Mae noson jazz fwyaf poblogaidd Caerdydd yn ôl y tymor hwn gyda'r genhedlaeth nesaf o berfformwyr jazz.

Cyntedd Carne

**Gwyliwch ar-lein**
youtube.com/RWCMDTV



AmserJazzTime

## Cabaret yn y Coleg

**Mer 13 Mai 6pm**

Detholiad o ddanteithion lleisiol o'r llwyfan wedi'u perfformio gan ein cantorion theatr gerddorol.

Cyntedd Carne


Cabaret yn y Coleg

## Bar Sain

**Iau 25 Meh 6pm**

Cyfle i glywed gweithiau newydd gan ein cyfansoddwyr ifanc addawol.

Cyntedd Carne

## Balance

**Iau 4–Maw 9 Meh**

Mae Balance yn arddangos gwaith cynllunwyr sy'n graddio a myfyrwyr rheoli llwyfan, gan gynnwys gwaith cynllunio a grëwyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf ar gyfer cynyrchiadau, prosiectau a ffilmiau a wnaed yn y Coleg. Mae'r arddangosfa flynyddol hon yn dwyn ynghyd waith yr ymarferydd cynllunio creadigol unigol a'r artist cydweithredol.


Galeri Linbury a Theatr Bute



Balance

# NEW NEWYDD ’26

5–12 Mehefin

Croeso i ŵyl ysgrifennu newydd flynyddol Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, sy’n cynnwys pedwar comisiwn newydd gan rai o ddramodwyr mwyaf cyffrous y DU.




## Feral Threads

Gwe 5, Llu 8 a Mer 10 Meh 7pm
Sad 6 a Maw 9 Meh 2pm

Mewn sefydliad troseddwyr ifanc, mae Tate o fewn un diwrnod o gael ei drosglwyddo i garchar oedolion. Ar ei ddiwrnod olaf ond un, mae ef a’i gyd-garcharorion yn arddangos eu cwiltiau a wnaed â llaw pan fydd gwirioneddau claddedig yn dechrau ymddatod a ffrwydro. Mae’r ddrama newydd hon gan Rebecca Jade Hammond yn archwilio’r gwrthdrawiad rhwng gwrywdod gwenwynig a chanfyddiadau benyweidd-dra, er mwyn gofyn y cwestiwn amhosibl; a yw gwaredigaeth byth yn bosibl?

Gan **REBECCA JADE HAMMOND**
Cyfarwyddwr **PATRICIA LOGUE**

Theatr Richard Burton
**Taith cyffwrdd: Llu 8 Meh 6.15pm**

## Van Man

Sad 6 a Maw 9 Meh 7pm
Gwe 5, Llu 8 a Mer 10 Meh 2pm

Mae dyn yn gyrru ei fan i’r afon. Mae torf yn ymgynnull, mae amser yn ymledu, mae disgyrchiant yn llusgo. Mae gwylwyr yn ystyried beth i’w wneud cyn ei bod hi’n rhy hwyr. Mae’n amhosibl peidio â gwylio, amhosibl peidio â dadlau, amhosibl peidio â breuddwydio a chanu carioci hefyd. Stori am fregusrwydd bywyd gan y dramodydd o Brydain EV Crowe.

Gan **EV CROWE**
Cyfarwyddwr **STEWART LAING**

Theatr Richard Burton
**Taith cyffwrdd: Llu 8 Meh 1.15pm**






# CWMNI RICHARD BURTON COMPANY

14+ Oed

Yn cynnwys themâu oedolion
Gall rhai perfformiadau gynnwys effeithiau strôb

Tocynnau £7.50–£15




## That Last Summer

Maw 9 a Iau 11 Meh 7pm
Sad 6, Mer 10 a Gwe 12 Meh

Caerdydd. Nawr. Mae grŵp o ffrindiau’n cael eu galw i’r parc. Maent yn darganfod bod pob un ohonynt ar brawf. Pwy ohonynt oedd yn gyfrifol am farwolaeth Aaliyah? Drama a ysgogir gan atgofion, gan yr awdur o Gymru Azuka Oforka - enillydd yr Awdur Gorau yng Ngwobrau Stage Debut 2024 am ‘The Women of Llanrumney’.

Gan **AZUKA OFORKA**
Cyfarwyddwr **LEE LYFORD**

Stiwdio Sherman
**Taith cyffwrdd: Maw 9 Meh 6.15pm**
**Mewn cydweithrediad â Theatr Sherman**

## XL Bully

Sad 6, Mer 10 a Gwe 12 Meh 7pm
Maw 9 a Iau 11 Meh 2pm

Mae wyth ffrind yn cymryd llwybr byr adref ar ôl noson allan. Maent yn cael eu dal mewn ystafell sydd wedi’i chloi, gyda rhywbeth anweledig yn aros ar ochr arall y drws. Wrth i’r pwysau gynyddu, mae jôcs yn miniogi, mae tensiynau’n ymddangos, ac mae ofn yn cydio. Mae’r hyn sy’n dechrau fel sefyllfa gomig dywyll yn newid yn araf i fod yn rhywbeth dieithr a mwy cythryblus. Drama newydd llawn tensiwn, doniol a phryfoclyd gan Stef Smith am ofn, cyfrifoldeb, a’r straeon rydym yn eu hadrodd i’n hunain pan fyddwn yn teimlo dan fygythiad.

Gan **STEF SMITH**
Cyfarwyddwr **ROB WATT**

Stiwdio Sherman
**Taith cyffwrdd: Maw 9 Meh 1.15pm**

1–6 Gorff 7PM
a 4 & 6 Gorff 2pm

12+ Oed

# GUYS and DOLLS

CHWEDL GERDDOROL O BROADWAY



Llyfr gan
**ABE BURROWS & JO SWERLING**

Cerddoriaeth a Geiriau
**FRANK LOESSER**

Yn seiliedig a'r stori a chymeriadau
**DAMON RUNYON**

Cyfarwyddwr
**OMAR F OKAI**

Coreograffydd
**SIMONE MISTRY-PALMER**

Cyfarwyddwr Cerddorol
**BARNABY SOUTHGATE**

Dewch i gwrdd â Nathan Detroit, gamblwr, sy'n ceisio trefnu gêm dis Craps fwyaf Efrog Newydd tra bod yr heddlu ar ei ôl, a Sky Masterson, a fetiodd y gallai ennill calon y genhades Sarah Brown. Mae'r sioe gyffrous hon sydd wedi'i thrwytho ym myd annymunol gangsters Efrog Newydd yn y 1950au, yn gwibio rhwng caffis Havana a charthffosydd y ddinas. Wedi'i pherfformio gan Gwmni Richard Burton, bydd y clasur o gomedi ramantus hon yn eich denu i gyd-ganu caneuon eiconig megis 'I've Never Been in Love Before', 'Sit Down, Your Rockin' the Boat' a 'Luck Be a Lady'.

**THEATR SHERMAN**
**£12.50–£25**

**TAITH CYFFWRDD**
**LLUN 6 GORFF 6.15pm**

Cyflwynir Guys and Dolls trwy drefniant arbennig gyda Music Theatre International (MTI). Mae'r holl ddeunyddiau perfformio awdurdodedig hefyd yn cael eu cyflenwi gan MTI. www.mtishows.com





Mae Ysgol Opera David Seligman yn cyflwyno

# ALCINA
## GAN HANDEL

26, 27, 29, 30 Meh 7pm



Cyfansoddwr **GEORGE FRIDERIC HANDEL**
Cyfarwyddwr **SOPHIE GILPIN**
Arweinydd **JAMES SOUTHALL**

Mae Alcina gan Handel wedi'i leoli ar ynys hudolus lle mae Ruggiero yn byw dan swyn y ddewines Alcina, tra bod ei ddyweddi Bradamante yn cyrraedd mewn cuddwisg i'w achub. Wrth i gamddealltwriaeth ledaenu, mae grym Alcina yn dechrau pylu. Wedi'i berfformio am y tro cyntaf yn Llundain ym 1735, mae'n cynnwys rhai o ariâu enwocaf Handel, a ddathlwyd am eu harddwch a'u pŵer mynegiannol. Peidiwch â cholli perfformiad Ysgol Opera David Seligman gyda cherddorfa lawn yr haf hwn.

**THEATR BUTE**

**DEWIS PRIS:** Darbodus £22 | Pris arferol £24 | Talu ymlaen £26

**TAITH CYFFWRDD:** Llun 29 Meh 6.15pm




## VERVE: Tri Pherfformiad

**Gwe 1 Mai, 7.30pm**

Mae VERVE yn cyflwyno tri pherfformiad syfrdanol o waith dawns, sy'n cynnwys creadigaethau newydd gan y coreograffwyr rhyngwladol enwog, Alethia Antonia, Andrea Costanzo Martini ac Oona Doherty. Yn cynnwys 18 o ddawnswyr a hyfforddwyd yn rhai o gonservatoires blaenllaw'r byd, VERVE yw cwmni teithiol rhyngwladol Ysgol Ddawns Gyfoes y Gogledd. Bob blwyddyn mae'r cwmni'n llwyfannu rhaglen o waith dawns sy'n unigryw yn artistig, yn gorfforol feiddgar ac yn ddeinamig.

Theatr Richard Burton

£8.50-£17

UNITE STUDENTS




## Matsena Productions: BOY-ISH

**Llun 15 – Maw 16 Meh 7.30pm**

**Gan Rhys Warrington, ynghyd â Anthony Matsena a Kel Matsena**

Mae pedwar dyn ifanc yn torri i mewn i'w hen ysgol un noson i yfed, sgwrsio a mynd yn ôl i amser pan nad oedd modd eu gwahanu. Yn ôl i'r jôcs a'r gemau yr oeddent yn eu rhannu fel plant. I'r hwyl hurt a'r creulondeb anystyriol. I'r gobeithion a'r breuddwydion a ystumiodd ac a newidiodd dros y blynyddoedd wrth iddynt ddod yn ddynion. Drama newydd gan y brodyr Matsena, sy'n enillwyr gwobr BAFTA Cymru, a'r dramodydd clodwiw o Gymru Rhys Warrington yw BOY-ISH. Wedi'i hadrodd drwy gerddoriaeth, symud a drama gyffrous, mae'n dangos yr effaith y mae partneriaid a mannau yn ei chael ar siapio hunaniaethau dynion.

Theatr Richard Burton

£9-£18

Cefnogwyd gan y Loteri Genedlaethol drwy Gyngor Celfyddydau Cymru

UNITE STUDENTS








## Llŷr Williams: Shostakovich Preliwdiau a Ffiwgiau II

**Iau 30 Ebr 7.30pm**


Nid oes rhaid bod yn fawr i fod yn wych! Mae'r preliwd a'r ffiwg yn ffurf gerddorol mor hen â Bach - ymarfer dwys i'r meddwl, y galon ac (wrth gwrs) y bysedd. Ni fu Shostakovich erioed yn fwy chwareus – neu ddwys – nag yn ei Breliwdiau a Ffiwgiau ar gyfer un piano, a heddiw mae artist cyswllt CBCDC Llŷr Williams yn cwblhau ei antur bersonol drwy bob un o'r 24 o'r perlau hyn o gerddoriaeth piano'r ugeinfed ganrif.

**Shostakovich** Preliwdiau a Ffiwgiau Op 87, Rhifau 14-24

Neuadd Dora Stoutzker

£12-£25

UNITE STUDENTS




## Cerddoriaeth Ieuenctid Caerdydd a CAVMS: Noson Gerddoriaeth

**Sul 19 Ebr 4pm**

Mae'r gyfres boblogaidd 'Noson Gerddoriaeth' yn dychwelyd i'r Coleg gyda dros 100 o gerddorion ifanc talentog o bartner CBCDC, Cerddoriaeth Ieuenctid Caerdydd, ac addysgwyr cerddoriaeth Gwasanaeth Cerddoriaeth Caerdydd a'r Fro, ynghyd â chorau blaenllaw ysgolion Caerdydd. Mae 'Noson Gerddoriaeth 4' yn cynnwys cerddoriaeth môr-ladron o 'The Goonies' a 'Pirates of the Caribbean' ynghyd ag alawon poblogaidd ar gyfer pob chwaeth.

Neuadd Dora Stoutzker

Am ddim-£14

## Sinfonia Cymru gyda Julieth Lozano Rolong


**Sad 2 Mai 7.30pm**

Mae Sinfonia Cymru a'r soprano Julieth Lozano Rolong yn creu rhywbeth cwbl arbennig, wrth i gerddoriaeth glasurol gwrdd â chalon egnïol America Ladin. Mae Julieth ac ensemble unigryw o chwech o gerddorion Sinfonia Cymru – ffidil, trwmped, bas, clarinet, telyn, ac offerynnau taro – yn rhoi bywyd i gerddoriaeth na chaiff ei chlywed yn aml ar lwyfannau Cymru. Gyda cherddoriaeth o'r Ariannin, Colombia, Ciwba, Mecsico, Periw a Venezuela, mae'r cyngerdd yn daith drwy America Ladin. O delynegiaeth gyfoethog María Grever i ddisgleirdeb rhythmig Esther Forero, mae pob cân y bydd Julieth yn ei pherfformio wedi'i chyfansoddi gan fenyw. Ymunwch â ni ar gyfer un o'r cyngherddau mwyaf unigryw a hudolus a glywir yng Nghymru yn 2026.

Neuadd Dora Stoutzker

£10-£20

**O brofiadau gemau fideo a sioeau cerdd un act i goncertos clasurol a llwybrau sain; mae gŵyl gerddoriaeth newydd CBCDC yn dychwelyd.**




## Daisy dreaming...

Gwe

### 7.30pm

Helpwch Zinnia a'i gath Daisy ar taith i adfywio ac ail-oleuo gardd anobeithiol a gwywedig. Darganfyddwch y profiad gêm fideo cydweithredol unigryw ac ysbrydoledig hwn a'r trac sain gan fand byw, gyda neges o obaith yn ganolog.

Cyfansoddwr **Jacob Owen**

Theatr Richard Burton

£5

## Why Choose Love

Sad

### 3pm

Darlun lliwgar a chomig o gyfeillgarwch gwirioneddol a sut y gall newid yr hyn sy'n bwysig i chi. Peidiwch â cholli perfformwyr theatr gerddorol CBCDC yn y première cerddorol un act newydd, 'Why Choose Love' sy'n profi y gellir dod o hyd i gariad yn y mannau mwyaf annisgwyl...

Cyfansoddwr **Max Fowler**

Theatr Richard Burton

£5

## Stolen Lullabies

### 6pm

Concerto piano yw Stolen Lullabies sy'n archwilio dylanwad cof a hyder cynyddol. Wedi'i adeiladu o ddarnau o gerddoriaeth a siapiodd y cyfansoddwr, mae'r gwaith yn symud o biano wedi'i fewnosod yn yr ensemble i lais mwy blaengar a hyderus, gan adlewyrchu symudiad o amsugno i berchnogaeth.

Cyfansoddwr **Trisha Virdi**

Neuadd Dora Stoutzker

£5

## The Mirror

### 7pm

Opera siambr un act cythryblus yw The Mirror lle mae un soprano yn ymgorffori ysbryd trothwyol menyw a'i chwaer iau farw. Wedi'i gefnogi gan fiola da gamba ac organ siambr, mae cymundeb y ddwy chwaer yn archwilio euogrwydd trawma a dial goruwchnaturiol yn yr opera arswyd hwn.

Cyfansoddwr **William Cox**
Perfformwyr **Juliet Wallace, Sarah Small & William Cox**

Theatr Richard Burton

£5











## Nothing to see here

Sul

### 12pm

Cerddorion CBCDC yn cyflwyno cyngerdd arddangos teimladwy, gan gymysgu elfennau jazz a chlasurol mewn perthynas â phrofiadau sydd wedi siapio cyfnod y cyfansoddwr fel myfyriwr. Mae presenoldeb yn gwylio'n chwilfrydig o'r llwyfan, gan leisio eu meddyliau'n uchel a datgelu manylion am y perfformiad a allai fel arall, gan eu bod wedi'u hamddifadu o'u synhwyrau eraill, gael eu colli gan y gynulleidfa. Gwahoddir cynulleidfaoedd i gau eu llygaid; nid oes angen delweddau.

Cyfansoddwr **Ryan Robinson**

Neuadd Dora Stoutzker

£5

## Re-Solve: Rescue Mission

### 1pm

Dilynwch dîm o weithredwyr wrth iddynt deithio trwy fyncer segur i ddadactifadu un o greiriau'r gorffennol sy'n bygwth y dyfodol. Sut fydd y tîm yn wynebu'r hen ofnau sy'n codi i fygwth y dasg? Mae'r gwaith hwn o theatr gerddoriaeth offerynnol yn cynnwys gitarau ystumedig a syntheseiswyr disglair, gan gymryd ysbrydoliaeth o ddramâu trosedd a cherddoriaeth 'jazz-fusion' yr 80au.

Cyfansoddwr **Valerie Mackerras**

Theatr Richard Burton

£5

## Cycle of Uncertainty


### 3pm

Mae meddyliau aflonydd yn troelli trwy anhrefn, pryder a cholli rheolaeth. Mae 'Cycle of Uncertainty' yn datgelu ochr dywyllach pob bod dynol ac yn gofyn, a oes ffordd i ddianc rhag tynfa amheuaeth gylchol ddiddiwedd? Yn cynnwys deuawd fibraffon gydag electroneg fyw, unawd soddgrwth a deuawd offerynnau taro.

Cyfansoddwr **Camille Chiu**

Stiwdio Seligman

£5




## D.K.A


### 4pm

D.K.A, Cetoasidosis Diabetig, yw lle mae'r corff yn brin o inswlin gan greu cetonau asidig yn y gwaed. Mae'r perfformiad electronig byrfyfyr hwn gyda delweddau tafluniol yn archwilio seiniad data rhwng D.K.A a hyperchloremia, gan ganolbwyntio ar anhawster y salwch i gleifion diabetig a'r diffyg ymwybyddiaeth ynghylch cymhlethdodau diabetes.

Cyfansoddwr **Harry Lewis**

Theatr Richard Burton

£5




## The Noise Floor Collective

### 5pm

Mae The Noise Floor Collective yn dwyn ynghyd gyfansoddwyr o bob rhan o sbectrwm cerddoriaeth electronig. Gyda'i gilydd maent yn archwilio meysydd seiniad data, synthesis atodol, cymysgu mewnbwn sero, trin sain byw, a chymaint mwy. Ymunwch â'r NFC am 45 munud o greu cerddoriaeth, cynllunio sain ac archwilio electronig, i gyd yn gwbl fyrfyfyr.

Cyfansoddwyr **Elaina Sophie, Finn Heathfield, Rhian Christabel, Harry Lewis, Milad Mardakheh a Odilon Marcenaro**

Neuadd Dora Stoutzker

£5




**20% I FFWRDD** pan fyddwch yn archebu tocynnau ar gyfer 3 neu fwy o gyngherddau £5

## Operâu pop-up

Am ddim

### Piano Lesson

Sad 9 Mai 4pm

Opera newydd feiddgar gan gyfansoddwr sy'n dod i'r amlwg yw Piano Lesson, sy'n ailddiffinio'r genre trwy ddeialog gerddorol ddwys rhwng llais a llinynnau. Wedi'i berfformio gan ddau fariton, feiolin, soddgrwth, bas dwbl ac arweinydd, mae'n dychanu hyfforddiant clasurol tra'n datgelu cost ddynol pwysau artistig.

Cyfansoddwyr **Xander Wallis & Holly Pei**
Cyfarwyddwr **Tetiana Hnatiuk**
Cyntedd Carne

### Swan of the Troubadour

Sul 10 Mai 2pm

Ar ôl deffro wedi canrifoedd o drwmgwsg, mae gan drwbadŵr crwydrol un peth ar ei meddwl: rhyddhau'r Elyrch o afael y Frenhiniaeth. Ar ôl cael oesoedd i berffeithio ei chân, daw atoch gyda neges: A fyddwch chi'n clywed galwad y gân orau yn y byd? A wnewch chi helpu i ryddhau'r Elyrch?

Cyfansoddwyr **Theodore Poe & Olivia Oakley**
Cyfarwyddwr **Tynan Thorogood**
Cyntedd Carne

## Gosodiadau

Am ddim

### Plasticity

Gwe 8 Mai 1.15pm, 2pm, 2.30pm, 3pm, 3.30pm

Archwiliad o ailgylchu plastig yw Plasticity. Rydym yn eich gwahodd i gamu i mewn i ofod sain sydd wedi'i gysegru i blastig. Meddyliwch am sut rydym yn defnyddio plastig yn ein bywydau pob dydd a beth yw canlyniadau hyn. Darganfyddwch beth allwch chi ei wneud i wneud gwahaniaeth.

Cyfansoddwr **Rhian Christabel**
Stiwdio Seligman

### Silhouettes

Sad 9 Mai 2pm–4pm a 4.30pm–5pm

Mae cysgodion yn symud ac yn hercio, mae pobl sy'n mynd pasio yn aneglur, mae golau a lliwiau'n darnio. Clywch y siapiau o'ch cwmpas yn cael eu dwyn i dirwedd sonig, trwy dafluniad sain amlsianel a phrosesu electronig byw.


Cyfansoddwr **Elaina Sophie**
Cyntedd Carne

### Listen to the Background

Sad 9 Mai 3.30pm, 4pm, 4.30pm, 6pm

Mae peiriannau yn rhan barhaol o'n bywydau. Rydym yn rhyngweithio â nhw i olchi ein dillad, cynhesu ein cartrefi, neu ddim ond i nôl y llaeth. Ond a ydym yn deall sut maen nhw'n gweithio? Mae'r gosodiad rhyngweithiol hwn yn archwilio symudiadau, mudiannau a chydrannau nwyddau gwyn trwy gyffwrdd, sain a chwarae. Peidiwch ag anwybyddu'r hymian; Gwrandewch ar y cefndir.

Cyfansoddwr **Finn Heathfield**
Stiwdio Seligman
**Taith cyffwrdd: Sad 9 Mai 5pm**


Listen to the Background





## Scoring the Cosmos: Two Short Films

Ffilm

Gwe 8–Sul 10 Mai

Yn arddangos, 'Globosome' a 'Space Cat Hob', dwy ffilm i gyfeiliant gwreiddiol a gyfansoddwyd gan Yihan Zhao dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Wedi'u creu ar gyfer Cystadleuaeth Sgorio Ffilm Ryngwladol Berlin, darganfyddwch y gweithiau hyn, sy'n archwilio'r gofod allanol trwy naratifau gweledol cyferbyniol ac awyrgylchoedd cerddorol.

Cyfansoddwr **Yihan Zhao**
Cyntedd Carne
**Am ddim**

## Wake up: A digital Opera

Gwe 8–Sul 10 Mai

Wedi'i ddal rhwng cwsg a chof, mae dyn yn estyn am y llais y mae wedi'i golli. Wrth i'r bore ailadrodd a realiti chwalu, mae cariad yn fflachio rhwng presenoldeb ac absenoldeb. Gan ddod ag opera a ffilm ynghyd, profwch yr opera ddigidol newydd hon a fydd yn cael ei chwarae yn y cyntedd dros y penwythnos.

Cyfarwyddwr **Jac Ifan Moore**
Cyfansoddwr **William Cox**
Geiriau **Tynan Thorogood & Tetiana Hnatiuk**
Dylunwyr **Gethin Bevan a Alice Edgar**
Cyntedd Carne
**Am ddim**

## Taith Sain

Sul 3–Sul 17 Mai

Ewch am dro trwy ddinas Caerdydd yng nghwmni Cyfansoddwyr CBCDC! Mae Taith Sain Awyrgylch yn lleoli darnau a grëwyd gan gerddorion y Coleg mewn ardaloedd penodol yn y ddinas; cerddwch a gwrandewch.

Cyfansoddwyr **Charlie Jones, Elaina Sophie, Harry Lewis, Nina Martin, Louis Villard, Max Fowler, Valerie Mackerras, Qaira Ní Mórdha, Jai Martone, Micah Hedges, Artie Stephenson**
Cynhyrchiad **Finn Heathfield**

**Ar gael trwy'r ap Echoes. Ewch i rwcmd.ac.uk/cy/whats-on am fwy o wybodaeth**
**Am ddim**




Samarpan Ensemble

## Samarpan: Dau Berfformiad

**Sad 16 Mai 4pm**

Mae Samarpan yn lansio dau berfformiad eleni, gyda rhaglen sy'n cynnwys dau berfformiwr ifanc o Gymru, dawnswyr Bharatanatyam, Nithya Menon ac Ann Sunny. Mae'r ddau artist yn parhau i fireinio eu celfyddyd o dan ymbarél Samarpan ac yn perfformio gyda cherddorfa fyw. Bydd y noson yn dechrau gyda perfformiad gan Ensemble Samarpan.

Theatr Richard Burton
**£8-£12 | D5 Am ddim**


Pedwarawd Fibonacci

## Pedwarawd Fibonacci

**Iau 7 Mai 7.30pm**

Mae enw'r Pedwarawd Fibonacci yn awgrymu posibiliadau diddiwedd - ac mae hynny'n wir, nid oes unrhyw emosiwn nad sy'n bosibl i'r ensemble ifanc rhagorol ac aml-wobrwyedig hwn, sydd ar hyn o bryd yn Bedwarawd Preswyl CBCDC. Intimate Letters deifiol Janáček yw calon danllyd cyngerdd sy'n dechrau gyda melodïau atgofus cefn gwlad Moravia ac yn gorffen gyda Schumann ar ei fwyaf personol ac angerddol.

**Tradd** Moravian Folk Songs (trefn Pedwarawd Fibonacci)
**Janáček** Pedwarawd Llinnynol Rhif 2 'Intimate Letters'
**Schumann** Pedwarawd Llinnynol Rhif 3 yn A FwyafNeuadd

Neuadd Dora Stoutzker
**£9-£18**

UNITE STUDENTS




Arddangosfa Arweinwyr WNO

## Arddangosfa Arweinwyr WNO

**Maw 19 Mai 1.15pm**

Arweinwyr CBCDC yn cyfarwyddo Cerddorfa WNO mewn awr ginio fywiog o ffefrynnau cerddorfaol, gan ddathlu talent ifanc trwy ein partneriaeth egnïol rhwng CBCDC/WNO.

Neuadd Dora Stoutzker
**£6-£12**

UNITE STUDENTS

## Cerddorfa WNO a Cherddorfa Symffoni CBCDC

**Iau 25 Meh 7.30pm**

Noson delynegol o gerddoriaeth sy'n taflu goleuni cynnes ar ein partneriaeth gerddorfaol fywiog â'r WNO, gydag aelodau o Gerddorfa WNO yn ymuno â Cherddorfa Symffoni CBCDC. Cyfansoddwyd Concerto Obo Richard Strauss tua diwedd ei oes, yn ystod yr hyn a ddisgrifir yn aml gan newyddiadurwyr fel ei 'haf bach Mihangel', ac fe'i perfformir yma gan Brif Oböydd WNO, Lucie Sprague.


**Strauss** Concerto i'r Obo
**Rachmaninov** Symffoni Rhif 2

Obo **Lucie Sprague**

Neuadd Dora Stoutzker
**£9-£18**

UNITE STUDENTS


Cerddorfeydd WNO a CBCDC




## Cerddorfa WNO: Summertime Soiree

**Sad 13 Meh 7.30pm**

Ymunwch â Cherddorfa WNO a'r mezzo-soprano byd-enwog Tara Erraught, a'r arweinydd Harry Ogg, am gyngerdd haf bythgofiadwy. O drama Genoveve Overture Schumann, i Symffoni Rhif 5 bywiog Mendelssohn. Ymunwch â ni am gyngerdd gwefreiddiol fydd yn codi'ch calon ac yn eich gadael yn ymhyfrydu yn llawenydd yr haf.

**Schumann** Agorawd Genoveve
**Vaughan Williams** Songs of Travel
**Frances Jenkins** The Coming of Night
**Mendelssohn** Symffoni Rhif 5 Reformation

Neuadd Dora Stoutzker
**£5-£22**

**Mae Gŵyl AmserJazzTime yn dychwelyd ym mis Mai gyda'r pianydd Joe Webb, a enwebwyd am Wobr Mercury, a dathliad canmlwyddiant Miles Davis gyda Jay Phelps.**

## Triawd Joe Webb

### Gwe 22 Mai 7.30pm

Un o'r pianyddion jazz mwyaf aruthrol i ddod i'r amlwg yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Joe Webb yn gerddor â thechneg feiddgar, arddull ddiamheuol a greddf felodig sy'n llawn eglurder, pwrpas a dawn Gymreig nodedig. Gan berfformio'n fyw gyda cherddorion megis Wynton Marsalis, Jools Holland a Jamie Cullum, cafodd ei lwyddiant ei amlygu ymhellach gan ei enwebiad am Wobr Mercury yn 2025 am yr albwm 'Hamstrings & Hurricanes'. Yn ymuno â'r cerddor a aned yng Nghastell-nedd ac a raddiodd o CBCDC fydd y basydd Will Sach a'r drymiwr Sam Jesson, mewn gig a ddylanwadir gan gyflymder a dychymyg harmonig Art Tatum, wedi'i sianelu trwy synwyrusrwydd modern Prydeinig a'i siapio gan uniongyrchedd a hyder melodig Oasis. Y canlyniad yw meistrolaeth feiddgar, sy'n hoelio'r sylw ac yn llawn rhythmau, wedi'i chyflwyno gydag arddull a phresenoldeb diamheuol.

Neuadd Dora Stoutzker
£11-£22

UNITE STUDENTS

21–24 MAI



Triawd Joe Webb

## Band Mawr CBCDC: Big Phat Band Gordon Goodwin

### Iau 21 Mai 7.45pm

Gyda elfennau o arddull band mawr y 1930au/40au ac ychydig o ffync a chyfuniad jazz, dechreuwch y penwythnos gyda Band Mawr CBCDC a Ceri Rees wrth iddynt eich gwahodd i brofi dawn arwain bandiau hyfryd a llawn grŵf y diweddar Gordon Goodwin a'i Big Phat Band a enillodd wobr Grammy. Roedd Goodwin yn sacsoffonydd a phianydd penigamp, yn gweithio gyda rhai o'r mawrion gan gynnwys Ray Charles, Sarah Vaughan a Quincy Jones; nid oedd diwedd ar ei ddawn cyfansoddi a threfnu.

Neuadd Dora Stoutzker
£9-£18

UNITE STUDENTS







Jay Phelps

## Jay Phelps: Miles Davis' Kind of Blue

### Sad 23 Mai 7.30pm

Yn dilyn perfformiadau yn y DU a werthodd pob tocyn ledled, mae Jay Phelps wedi cynnull rhai o gerddorion jazz gorau Prydain i nodi canmlwyddiant artist jazz mwyaf dylanwadol y byd. Mae Phelps yn dwyn ynghyd y gorau o gerddoriaeth Davis o'r blynyddoedd a gynhyrchodd yr albwm '1958 Miles' a'r albwm jazz sydd wedi gwerthu orau erioed, 'Kind of Blue' a oedd yn cynnwys y casgliad eiconig o gerddorion: Cannonball Adderley, John Coltrane, Bill Evans, Wynton Kelly, Paul Chambers a Jimmy Cobb. Diffiniodd yr albymau hyn ddull newydd arloesol o gelfyddyd byrfyfyrio.

Neuadd Dora Stoutzker
£12.50-£25

UNITE STUDENTS

## Digwyddiadau am ddim

Byddwch y cyntaf i brofi'r genhedlaeth nesaf o gerddorion jazz gyda llu o berfformiadau am ddim dros y penwythnos.

**Ewch i www.rwcmd.ac.uk/whats-on i weld y rhaglen lawn o ddigwyddiadau.**




Y Kanneh-Masons

NIFEROEDD CYFYNGEDIG

## Y Kanneh-Masons

**Sul 14 Meh 7pm**

Mae'n rhaid eich bod yn ymwybodol o'r wefr yn ymwneud â'r Kanneh-Masons, un o deuluoedd mwyaf cerddorol Prydain. Gyda chysylltiad cryf â Chymru, yn disgrifio eu hunain yn chwarter Cymry, bydd y grŵp arbennig yma yn perfformio fel ensemble siambr am y tro cyntaf yng Nghaerdydd mewn perfformiad olaf arbennig Cyfres Piano Rhyngwladol Steinway. Clywed Sheku, Isata, Braimah a Jeneba, sydd wedi datblygu i fod yn artistiaid llawn carisma a sgil rhyfeddol, yn chwarae tri champwaith cerddoriaeth siambr.

**Mozart** Sonata yn C fwyaf ar gyfer Piano Pedair Llaw, K. 521
**Ravel** Sonata ar gyfer Feiolin a Soddgrwth
**Shostakovich** Trio Piano Rhif 2 yn E leiaf, 67

Neuadd Dora Stoutzker
**£38-£40**
Cefnogir gan Castell Howell


Affinity Choir

## Affinity Female Voice Choir: Pure Imagination

**Sad 20 Meh 7.30pm**

Camwch i mewn i noson hudolus o gerddoriaeth wrth i Gôr Merched Affinity eich gwahodd ar daith drwy ryfeddod Disney a Broadway. Mae'r cyngerdd hwn yn archwiliad llawen o ddychymyg ym mhob un o'i ffurfiau - o'r galon, yn obeithiol, a dyrchafol. Yn cynnwys caneuon o sioeau cerdd Wicked, Sister Act, 9-5, Miss Saigon a Six, ynghyd â clasuron Disney Aladdin, Pinocchio, Tangled a llawer mwy.

Neuadd Dora Stoutzker
**£12-£15**




Corws CBCDC

## Corws CBCDC: Caneuon Cenedl

**Gwe 3 Gorff 7.15pm**

Mae lluoedd torfol Corws CBCDC yn dod ynghyd dan arweiniad y Cyfarwyddwr Cerddoriaeth, Tim Rhys-Evans, a meistr Cerddoriaeth Draddodiadol Cymru, Patrick Rimes. Gan gloddio cyfoeth caneuon gwerin Cymru gyda threfniannau newydd gan Patrick a Tim, cyfeilir i'r corws gan fand o rai o gerddorion gorau Cymru, yn chwarae ochr yn ochr â myfyrwyr CBCDC. Wedi'i berfformio heb egwyl, bydd hwn yn archwiliad cyffrous ac emosiynol o'n llyfr caneuon cenedlaethol hynafol trwy lens gyfoes.

Neuadd Dora Stoutzker
**£8.50-£17**

UNITE STUDENTS




## Cyswllt

**Dewch yn aelod o £5 y mis ac ymunwch â chymuned anhygoel o gefnogwyr sy'n helpu ein myfyrwyr i gyrraedd eu llawn botensial yn CBCDC.**

**rwcmd.ac.uk/cy/support-us**


Only Boys Aloud

## Academi Only Boys Aloud 2026

**Sul 19 Gorff 6pm**

Mae Academi Only Boys Aloud yn gwrs preswyl dwys, wythnos o hyd, sy'n darparu hyfforddiant pellach ym mhob agwedd o gerddoriaeth, canu a pherfformio i aelodau hŷn Only Boys Aloud. Ymunwch â ni ar gyfer ein cyngerdd diwedd cwrs sy'n arddangos amrywiaeth o gerddoriaeth gorawl o repertoire corau meibion traddodiadol i glasuron theatr gerdd.

Neuadd Dora Stoutzker
**£20-£22**

## Cerddorfa Siambr Cymru: 40th Anniversary Concert

**Gwe 24 Gorff 7pm**

I nodi pen-blwydd Cerddorfa Siambr Cymru yn 40 oed, mae cerddorfa siambr broffesiynol hynaf Cymru yn cyflwyno rhaglen ddiddorol ac eang, sy'n cwmpasu bron i dair canrif o gerddoriaeth o 1749 i 2026, dan arweiniad sylfaenydd a Chyfarwyddwr Artistig y Gerddorfa, Anthony Hose. Mae cyfansoddiad newydd un o raddedigion CBCDC Sarah Frances Jenkins yn dathlu'r gerddorfa, wedi'i ysbrydoli gan ei chyfnod yn byw ac yn astudio yng Nghymru.

**Handel** Arrival of the Queen of Sheba
**Sarah Frances Jenkins** Landscapes of Wales
**Haydn** Symffoni Rhif 22 yn E feddalnod fwyaf, Hob. I:22
**Morfydd Owen** Threnody
**Mozart** Symffoni Rhif 41 yn C fwyaf, K.551

Neuadd Dora Stoutzker
**£13-£20**


Cerddorfa Siambr Cymru






## Lights, Puppets... Action!

7-9 Oed

**Sad 4–Sul 5 Gorff 11am & 2.45pm**

Camwch i fyd hudolus ffilmiau mud gydag Esther, tywysydd swil ond chwilfrydig sy'n cael ei hysgubo i gorwynt o gariad, chwerthin ac antur wallgof. Gydag adrodd straeon gweledol, pypedwaith, cerddoriaeth fyw a chapsiynau creadigol, mae'r sioe hon wedi'i chreu ar gyfer plant 7-9 oed ond yn addas i bawb.

Stiwdio Caird
**£7.50-£15**

**Hygyrch i gynulleidfaoedd Byddar a thrwm eu clyw; Nid oes testun llafar yn ystod y perfformiad hwn.**

## Little Concerts: Percussion Playground!

0-11 Oed

**Sad 27 Meh 11am & 2pm**

Ymunwch â cherddorion proffesiynol ifanc gwych CBCDC mewn awr lawen o greu cerddoriaeth gyffrous wedi'i chynllunio o amgylch arddulliau dysgu aelodau ieuengaf ein cynulleidfa. Cerddoriaeth fyw lawen i deuluoedd 0-10 oed.

Stiwdio Seligman
**£7 plant | £7 oedolion**




## Gwobr Opera Janet Price

**Mer 6 Mai 2pm**

Sefydlwyd Gwobr Opera Janet Price yn 2017 i gefnogi hyfforddiant uwch cantorion opera ifanc. Mae meini prawf y gystadleuaeth flynyddol yn adlewyrchu cred gadarn Janet yn un o elfennau sylfaenol perfformiad opera, bel canto Eidalaidd, ac yn gwobrwyo'r canwr sy'n gallu cyfleu naws dramatig orau trwy iaith. Ymunwch â ni wrth i aelodau Ysgol Opera David Seligman gystadlu am y wobr fawreddog hon.

Neuadd Dora Stoutzker

£5-£10

UNITE STUDENTS

## Rownd Derfynol Gwobr Syr Ian Stoutzker

**Mer 10 Meh 6pm**

Cyfrannodd Syr Ian Stoutzker yn hael at adeiladu neuadd gyngerdd y Coleg a rhoddodd wobr flynyddol i'n myfyriwr cerddoriaeth mwyaf rhagorol, i'w dyfarnu trwy gystadleuaeth. Ar ôl coroni'r bariton Owain Rowlands yn enillydd Gwobr Stoutzker Lleisiol 2025, ymunwch â'n hofferynwyr terfynol rhagorol wrth iddynt gystadlu am yr anrhydedd.

Neuadd Dora Stoutzker

£6-£12

UNITE STUDENTS

## Gwobr John Ireland

**Llun 11 Mai 7pm**

Ym meysydd cerddoriaeth siambr a chân y gwnaeth John Ireland enw iddo'i hun gyntaf fel cyfansoddwr, a'r rhain oedd y meysydd yr oedd fwyaf cartrefol ynddynt drwy gydol ei yrfa. Mae'n bleser gan CBCDC groesawu Gwobr John Ireland yn ôl, gan roi cyfle i'n myfyrwyr gydweithio mewn perfformiadau o gerddoriaeth y meistr siambr hwn, gan arwain at rownd derfynol gyhoeddus i berfformwyr ensemble a llais.

Oriel Weston

£5-£10

UNITE STUDENTS




## Dunraven Welsh Young Singer of the Year Competition

**Sul 7 Meh 2.30pm**

Mae 2026 yn nodi 22 o flynyddoedd ers dechrau cystadleuaeth sydd wedi sefydlu ei hun fel un o'r rhai mwyaf mawreddog yng Nghymru. Gydag enillwyr blaenorol yn mynd ymlaen i gystadlu yng nghystadleuaeth BBC Canwr y Flwyddyn Caerdydd, peidiwch â cholli'r cyfle hwn i weld rhai o ddoniau gorau gwlad y gân. Noddir gan Mr a Mrs David Brace OBE, y cyflwynydd fydd Beverley Humphries MBE ac fe'i beirniedir gan yr enwog Rebecca Evans CBE a Dennis O'Neill CBE.

Neuadd Dora Stoutzker

£8-£10





## Cysylltiadau Baróc

**Mae oes y Baróc i'w ganfod ar ddechrau cyfnod cerddoriaeth glasurol fodern ac mae ei fawredd godidog a'i emosiynau angerddol wedi ysbrydoli cenedlaethau o gyfansoddwyr.**

Dros dri chyngerdd cyfareddol, mae'r pianydd meistrolgar Llŷr Williams yn archwilio cerddoriaeth sydd wedi'i hysbrydoli gan yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif: taith trwy dynerwch, ffantasi, mawredd epig a thân gwyllt disglair. Ymunwch ag ef, i glywed oes goll trwy glustiau ffres.

Neuadd Dora Stoutzker

Tocynnau £12-£25

**15% I FFWRDD** pan fyddwch yn archebu 2 neu fwy o gyngherddau yng Nghyfres Llŷr Williams: Cysylltiadau Baróc.*

*Docynnau pris llawn yn unig

### Cysylltiadau Baróc 1

**Iau 15 Hyd 2026 7.30pm**

**Debussy** Suite Bergamasque
**Ravel** Menuet antique, Pavane a Forlane
**Debussy** Pour le piano
**Chopin** 24 Preludes op.28

### Cysylltiadau Baróc 2

**Iau 7 Ion 2027 7.30pm**

**Bach/Busoni** Preliwdiau Chaconne a Corâl
**Rachmaninov** Amrywiadau Corelli
**Liszt** Ffantasi a Ffiwg ar BACH
**Brahms** Amrywiadau Handel

### Cysylltiadau Baróc 3

**Iau 22 Ebr 2027 7.30pm**

**Bach/Busoni** Preliwdiau Chaconne a Corâl
**Rachmaninov** Amrywiadau Corelli
**Liszt** Ffantasi a Ffiwg ar BACH
**Brahms** Amrywiadau Handel



# Celfyddydau Cynhyrchu Pobl Ifanc

**A wyddoch chi? Rydym yn cynnig cyfleoedd i archwilio theatr dechnegol, rheoli llwyfan a dylunio ar gyfer pobl ifanc 11-18 oed.**

Mae ein cyrsiau a'n dosbarthiadau meistr yn rhoi cyfle i bobl ifanc creadigol gael mewnwelediad gwirioneddol i hyfforddiant ysgol ddrama a'r diwydiannau 'cefn llwyfan' ehangach.

Cyflwynir dosbarthiadau arbenigol gan amrywiaeth o weithwyr proffesiynol, mewn sgiliau sy'n cynnwys goleuo, sain, rheoli llwyfan, gwneud propiau, gwisgoedd a chynllunio set.

**Cymerwch olwg ar y cyrsiau a'r dosbarthiadau meistr sydd i ddod yma.**



## Gadewch i ni gynnal eich digwyddiad nesaf

**Croeso i'n cyfleusterau o'r radd flaenaf yng nghanol Caerdydd.**

Mae gennym ystod eang o fannau sydd ar gael i'w llogi, ac rydym wedi ennill enw da y gellir ymddiried ynddo am gynnal digwyddiadau rhyngwladol eithriadol, dathliadau personol cartrefol, darllediadau byd-eang a pherfformiadau gwefreiddiol a llwyddiannus.

**I drafod eich digwyddiad cysylltwch â Janet Smith, Rheolwr Lleoliadau: janet.smith@rwcmd.ac.uk | 029 2039 1376**

**Ewch i'n gwefan i gael gweld y tu mewn i'r mannau sydd ar gael i'w llogi.**



**Hoffai'r coleg ddiolch i'r cyrff cyhoeddus, unigolion, ymddiriedolaethau, sefydliadau a noddwyr sy'n ein cefnogi.**

**The college would like to thank the public bodies, individuals, trusts, foundations and sponsors who support us.**

**rwcmd.ac.uk/thankyou**

**Noddwr | Patron**
HM King Charles III

**Llywydd | President**
Dame Shirley Bassey CH DBE FRWCMD

**Cadeirydd | Chair**
Michael Plaut OBE

**Is-Lywyddion**
**Vice Presidents**

Philip Carne MBE FRWCMD
Rhodri Talfan Davies BA (Hons) Oxon
Sir Anthony Hopkins CBE FRWCMD
Professor Uzo Iwobi CBE
Dame Gwyneth Jones CBE FRWCMD
Captain Sir Norman Lloyd-Edwards KCVO, GCStJ, RD*, JP, RNR
Menna Richards BA FRWCMD
Lady Anya Sainsbury FRWCMD
Michael Sheen FRWCMD
Sir Bryn Terfel CBE FRWCMD
Edward Thomas FRWCMD
The Rt Revd and Rt Hon The Lord Williams of Oystermouth

**Cylch Llywyddion Ysgol Opera David Seligman**
**The David Seligman Opera School Circle of Presidents**

Rebecca Evans CBE FRWCMD
Sir Brian McMaster CBE FRWCMD
Sir David Pountney CBE FRWCMD
Carlo Rizzi FRWCMD
Sir Bryn Terfel CBE FRWCMD

Mae'r Ysgol Opera David Seligman wedi ei chefnogi gan rodd David Seligman.

The David Seligman Opera School is supported by the David Seligman gift

**Unigolion | Individuals**

Dame Shirley Bassey CH DBE FRWCMD
The Biss Family
Philip Carne MBE FRWCMD and Christine Carne FRWCMD
Professor Indira Carr
Lord Mervyn and Lady Davies
Hywel and Mary George
The late Eira and Don Halley
The late Victoria Harris
James Harrison
The late Mair Haywood
The late Edwin James
The late Keith James
The late Leonard and Marian Jones
The late Elaine Hugh-Jones
The late Arthur Morris Jones
The late Barbara Knapton and Kathleen Cavill
Sir Brandon and Lady Lewis
The family of the late Sir Charles Mackerras CBE FRWCMD
Samantha Maskrey
Sean Mathias
The late Eluned McGrenary
Gregory Nasmyth and the Hon. Samantha Rowe-Beddoe
Richard Parry
Thomas Percy
Alan Peterson OBE, Maggie Peterson & Hywel Peterson MBE
The late Gwenllian Phillips in memory of her husband
The late Phoebe Ida Phillips
Janet Price FRWCMD
The late Eileen Price
Sir Jonathan Pryce
The late Trevor Pugsley
John Rath and John Underwood
The late Ron Redwood
Carlo Rizzi FRWCMD
The late Eric and Angharad Roberts
The late Lord Rowe-Beddoe DL and Lady Rowe-Beddoe
The late David Seligman OBE FRWCMD and the Philippa Seligman legacy
The late Jacqueline Skarvellis
The late Sir Ian Stoutzker CBE FRWCMD
Sir Howard Stringer FRWCMD and Lady Jennifer Stringer
The late Peter Sutton
Peter and Janet Swinburn
Babs and Debs Thomas
Sarah and James Trafford
Matthew and Kate Tucker
The late Beryl Tythicott
Sheila Walton
The late Marcia Watts
The late Neil and Mary Webber
Ted and Val Yates
Ann Ziff
Clive Morris
Catherine Zeta-Jones CBE FRWCMD

**Cymorth Busnes**
**Business Support**

Hugh James
Steinway
Bad Wolf

**Ymddiriedolaethau a Sefydliadau Trusts and Foundations**

Antares Trust
Albert and Eugenie Frost Music Trust
Anthony G Woolcott Charitable Trust
Bowerman Charitable Trust
British Schools & Universities Foundation
Gareth Jones Trust
Helen Rachael Mackaness Charitable Trust
James Pantyfedwen Foundation
Sir John Gielgud Charitable Trust
Julian Bream Trust
Maria Björnson Memorial Fund
Nick Lewis Memorial Trust
Pontoon Trust
Simon Gibson Charitable Trust
South Square Trust
Spielman Charitable Trust
Starmer Jones Music Trust Fund
Waterloo Foundation

**Cylch Y Cadeiryddion**
**The Chairs' Circle**

John Derrick and Preben Oeye
Mr and Mrs Vyvyan and Valerie Ferrer
The Honourable Robert Lloyd George
Richard Lloyd-Owen and Patricia Cabrera
Roger Munnings CBE and Karen Munnings
Peter Saunders OBE
Atlantic Property Development PLC (Babs Thomas)





**Cylch '49 | The '49 Circle**

Diolch i'r rhai sydd wedi cofio CBCDC yn eu hewyllys.

Thanks to those who have remembered RWCMD in their will.

Registered with/Cofrestrwyd gyda'r FUNDRAISING REGULATOR RHEOLEIDDWR CODI ARIAN

Elusen Gofrestredig 1139282
Registered Charity 1139282

**Cyswllt | Connect**

Diolch i'n haelodau *Cyswllt* a *Cyswllt* Cyfeillion, sydd wedi eu henwi ar ein gwefan, am eu cefnogaeth ffyddlon o'r Coleg a'i fyfyrwyr.

Thanks to our *Connect* and Friends *Connect* members, who are acknowledged on our website, for their loyal support of the College and its students.

**Hoffem hefyd diolch i bawb a wnaeth gyfrannu i Gronfa Syr Bryn Terfel a Gwobr Shakespeare David Rowe-Beddoe, yn ogystal â'r rheini sy'n cyfrannu at ein gwobrau blynyddol.**

**We would also like to thank everyone who contributed to Cronfa Syr Bryn Terfel and The David Rowe-Beddoe Shakespeare Prize, as well as those who donate to our annual prizes.**

**Cymorth Busnes | Business Support**

Ambersphere Solutions · Unite Students · Arts & Business Cymru · Castell Howell

**Ymddiriedolaethau a Sefydliadau | Trusts & Foundations**

The Linbury Trust · Colwinston Charitable Trust · The Mackintosh Foundation · Universal Music UK Sound Foundation · Hodge Foundation · Andrew Lloyd Webber Foundation · Backstage Trust · The Moondance Foundation · Foyle Foundation · The Wolfson Foundation · ABRSM · The First Trust · Leverhulme Trust · Clive Richards Foundation

**Cyrff Cyhoeddus | Public Bodies**

Cyngor Celfyddydau Cymru / Arts Council of Wales · Ariennir gan y Loteri / Lottery Funded · Llywodraeth Cymru / Welsh Government · Medr · First Campus

# Digwyddiadau | Events



| Dyddiad<br>Date | Digwyddiad<br>Event | Lleoliad<br>Venue |
|---|---|---|
| Ebr 19 Apr | Capital Youth Music & CAVMS: Music Night | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| Ebr 30 Apr | Llŷr Williams: Shostakovich Preludes & Fugues II | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| Mai 1 May–Gorff 3 Jul | AmserJazzTime | Cyntedd Carne Foyer |
| Mai 1 May | VERVE: Triple Bill | Theatr Richard Burton Theatre |
| Mai 2 May | Sinfonia Cymru with Julieth Lozano Rolong | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| Mai 6 May | Janet Price Opera Prize | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| Mai 8–10 May | Atmospheres \| Awyrgylch 2026 | Various \| Amrywiol |
| Mai 7 May | Pedwarawd Fibonacci Quartet | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| Mai 11 May | Gwobr John Ireland Prize | Oriel Weston Gallery |
| Mai 13 May | Cabaret at the College \| Cabaret yn y Coleg | Cyntedd Carne Foyer |
| Mai 16 May | Samarpan: Double Bill | Theatr Richard Burton Theatre |
| Mai 19 May | WNO Conductors Showcase | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| Mai 21 May | RWCMD Big Band: Gordon Goodwin's Big Phat Band | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| Mai 22 May | Joe Webb Trio | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| Mai 23 May | Jay Phelps: Miles Davis' Kind of Blue | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| Meh 4–9 Jun | Balance | Galeri Linbury Gallery & Theatr Bute Theatre |
| Meh 5–10 Jun | NEW '26 \| NEWYDD '26: Feral Threads | Theatr Richard Burton Theatre |
| Meh 5–10 Jun | NEW '26 \| NEWYDD '26: Van Man | Theatr Richard Burton Theatre |
| Meh 6–12 Jun | NEW '26 \| NEWYDD '26: That Last Summer | Stiwdio Sherman Studio |
| Meh 6–12 Jun | NEW '26 \| NEWYDD '26: XL Bully | Stiwdio Sherman Studio |
| Meh 7 Jun | Dunraven Welsh Young Singer of the Year Competition | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| Meh 10 Jun | Sir Ian Stoutzker Prize Final | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| Meh 13 Jun | WNO Orchestra: Summertime Soiree | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| Meh 14 Jun | The Kanneh-Masons | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| Meh 15–16 Jun | Matsena Productions: BOY-ISH | Theatr Richard Burton Theatre |
| Meh 20 Jun | Affinity Female Voice Choir: Pure Imagination | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| Meh 25 Jun | WNO Orchestra & RWCMD Symphony Orchestra | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| Meh 25 Jun | Sound Bar \| Bar Sain | Cyntedd Carne Foyer |
| Meh 26–30 Jun | David Seligman Opera School: Alcina | Theatr Bute Theatre |
| Meh 27 Jun | Little Concerts: Percussion Playground! | Stiwdio Seligman Studio |
| Gorff 3 Jul | RWCMD Chorus: Songs of a Nation \| Caneuon Cenedl | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| Gorff 4–5 Jul | Lights, Puppets... Action! | Stiwdio Caird Studio |
| Gorff 1–6 Jul | Guys and Dolls | Theatr Sherman Theatre |
| Gorff 19 Jul | Only Boys Aloud Academy 2026 | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| Gorff 24 Jul | Welsh Chamber Orchestra 40th Anniversary Concert | Neuadd Dora Stoutzker Hall |

**Ewch i | Visit www.rwcmd.ac.uk/whats-on**

MIX Paper from responsible sources FSC® C106170

The Royal Welsh College of Music & Drama is part of the University of South Wales Group
Mae Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn rhan o Grŵp Prifysgol De Cymru